

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Brynteg
(Brynaman), Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 13 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Brynteg (Brynaman), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 13 Chwefror 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod pob un o'r cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd adborth yr holl gleifion yn gadarnhaol, gyda chleifion yn dweud bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis naill ai 'yn dda' neu 'yn dda iawn'.

Gwelsom fod systemau ar waith i reoli apwyntiadau cleifion yn briodol, ac roedd unrhyw achosion o oedi i apwyntiadau yn cael eu cyfleu mewn modd amserol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym ei bod yn hawdd iddynt gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Fodd bynnag, gwelsom fod angen rhai gwelliannau o ran y 'Cynnig Rhagweithiol'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd adborth y cleifion i holiadur AGIC yn gadarnhaol
- Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael gofal amserol.
- Roedd cleifion trawsryweddol yn cael cymorth priodol i gynnal eu hawliau o ran cydraddoldeb.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn lân ac yn drefnus, a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom gyfarpar a oedd mewn cyflwr da ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan glinigwyr wedi'u hyfforddi. Roedd y staff yn rheoli heintiau mewn ffordd addas. Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC hefyd fod y practis yn lân a bod y staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau yn gywir.

Gwelsom feysydd i'w gwella o ran lleoliad peiriannau awtoclaf mewn deintyddfeydd. Roedd hefyd angen gwella'r ffordd roedd y cyngor a roddir i gleifion ynglŷn â meddyginiaethau yn cael ei gofnodi. Gwelsom fod y cyfarpar radiograffig a'r triniaethau a roddir i gleifion yn ddiogel, a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol yn unol â'r canllawiau cyfredol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o storio eiddo personol y staff yn ddiogel
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu lleoliad cyfarpar dihalogi
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y broses o gofnodi ac asesu risgiau yn gwbl gynhwysfawr.
- Roedd y trefniadau diogelu a oedd ar waith i blant ac oedolion yn gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod trefniadau rheoli clir ar waith er mwyn galluogi a chefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol. Roedd y staff yn gyfeillgar, yn frwdfrydig ac yn gwrtais â'i gilydd a'r cleifion.

Roedd y trefniadau a oedd ar waith i alluogi'r staff i ddysgu a datblygu yn gefnogol ac roedd rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn cael eu rheoli'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom feysydd i'w gwella o ran gwella ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys archwiliadau a gweithgarwch datblygu tîm.

Gwelsom fod systemau boddhaol ar waith i gofnodi adborth cleifion ac ymateb iddo a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi pryderon.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfotigau yn rheolaidd.
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gweithgareddau datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer casglu, adolygu ac ymateb i adborth cleifion yn gadarn
- Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth ac ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Roedd y staff yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn gwrtais.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur i gael safbwyntiau cleifion ar y gofal ym Mhractis Deintyddol Brynteg (Brynaman). Cafwyd cyfanswm o 12 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, a oedd yn golygu nad oedd 12 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, a dywedodd pob ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (9/12) neu'n 'dda' (3/12).

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod y wybodaeth glir a chryno a oedd ar gael i gleifion yn cael ei harddangos a hefyd ei bod mewn taflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais.

Gwelsom fod y taliadau a godir am ofal preifat a gofal deintyddol y GIG yn cael eu harddangos wrth ddesg y dderbynfa, ochr yn ochr ag enwau ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Nodwyd gennym hefyd fod Cod Moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei arddangos yn yr ardal aros. Y tu allan i'r practis, gwelsom fod yr oriau agor a manylion cyswllt brys yn cael eu harddangos, gan gynnwys cyfeiriad at wasanaeth 111 y GIG.

Cadarnhaodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal addas ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd i leihau effaith derbynfa ac ardal aros unedig ar breifatrwydd cleifion. Roedd hyn yn cynnwys ystafell breifat i gleifion gael unrhyw sgysiaau sensitif a sgrinio wrth ddesg y dderbynfa er mwyn sicrhau nad oedd neb yn gallu clywed galwadau ffôn. Gwelsom ddrysau pren solet a gwydr barugog ar ffenestri deintyddfeydd er mwyn atal cleifion rhag cael eu gweld yn ystod apwyntiadau.

Dyweddod pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym ei fod yn cael ei drin ag urddas a pharch gan y staff. Nododd y cleifion hefyd bod y staff yn gwrandio arnynt, yn ateb eu cwestiynau ac yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod prosesau cynllunio triniaethau a'r opsiynau triniaeth a oedd ar gael wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi cael gwybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Dyweddod y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth. Cadarnhaodd y cleifion hefyd fod y staff wedi esbonio'r opsiynau, y risgiau, y buddiannau a'r costau iddynt.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng a sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod proses gadarn ar waith i reoli'r mynediad amserol at ofal i gleifion. Roedd apwyntiadau yn cael eu gwneud dros y ffôn neu ar ddiwedd apwyntiad blaenorol, gyda'r staff yn dweud wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu ar amser addas i gleifion hyd y gellir. Dywedwyd wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na phedair wythnos i weld ymarferydd. Roedd unrhyw oedi cyn bod cleifion yn cael eu trin yn cael ei reoli gan staff y dderbynfa ac roedd cleifion yn cael eu hysbysu ar ôl deng munud am y rhesymau dros yr oedi.

Dyweddod y mwyafrif o'r ymatebwyr i holiadur AGIC ei bod 'yn hawdd iawn' (4/12) neu 'yn eithaf hawdd' (5/12) i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Gwelsom fod apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu dros y ffôn gan dîm y dderbynfa, ar ôl trafodaeth ag ymarferydd deintyddol yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion yn cael eu gweld o fewn 24 awr i unrhyw achos brys a bod y practis yn cynnal sesiynau mynediad 111 y GIG bob diwrnod yn ystod yr wythnos waith.

Dyweddod y rhan fwyaf (10/12) o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion y byddent yn gwybod sut i gael gafaer ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i gleifion yn Saesneg, ond prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn Gymraeg. Gwelsom arwyddion yn y practis a oedd yn uniaith Saesneg, a phrin oedd y wybodaeth wrth ddesg y dderbynfa i annog y cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Nid oedd y staff yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith', ac esboniodd y staff mai'r rheswm dros hynny oedd nad oedd neb yn y practis yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos dealltwriaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion. Gwelsom hefyd enghreifftiau lle roedd ffurflenni wedi cael eu rhoi i gleifion a oedd yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, esboniodd y staff eu bod wedi ei chael hi'n anodd cael cymorth gan y bwrdd iechyd i drefnu hyfforddiant Cymraeg ac i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio adnoddau cyfieithu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Cadarnhaodd y staff y gellid darparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith ar gais.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod hawliau a chydraddoldeb cleifion yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo. Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu rheoli drwy ddilyn polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth addas a oedd wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar. Roedd y practis hefyd yn cynnal dull dim goddefgarwch cadarn tuag at unrhyw fath o ymddygiad sarhaus yn erbyn cleifion a staff, a oedd wedi'i nodi mewn polisi ar drais ac ymddygiad ymosodol ac ar bosteri o amgylch y practis.

Gwelsom ddull addas o gefnogi'r cleifion a'r staff gydag unrhyw addasiadau rhesymol. Clywsom enghreifftiau lle roedd aelodau o'r staff yn cael dyletswyddau amgen neu nad oeddent yn gweithio ar ddiwrnodau penodol oherwydd gofynion personol. Gwelsom dystiolaeth bod cleifion trawsryweddol yn cael cymorth priodol i gynnal eu hawliau o ran cydraddoldeb.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Nodwyd gennym fod y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol a bod maint a chynllun y practis yn addas i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y goleuadau, gwresogi, awyru ac arwyddion i gyd yn briodol ac roedd pob ardal yn lân ac yn daclus. Roedd yr ystafell aros o faint priodol o ran nifer y deintyddfeydd a dywedodd y staff wrthym y byddai'r ardal aros yn cael ei hadnewyddu yn y dyfodol agos. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom doiledau glân a oedd yn cynnwys cyfarpar addas i staff a chleifion, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer y rhai â gofynion hygrychedd. Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio toiled y gellir ei gloi i newid. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw loceri diogel ar gael i'r staff storio eu heitemau personol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o storio eiddo personol y staff yn ddiogel.

Roedd y cyfarpar deintyddol aml dro a welsom mewn cyflwr da er mwyn rhoi gofal diogel ac effeithiol a nodwyd gennym fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff, gan gynnwys asesiadau risg diweddar ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Roedd polisi parhad busnes addas hefyd ar waith a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Roedd arwyddion diogelwch tân a dim smygu i'w gweld yn amlwg o amgylch y practis. Wrth edrych ar y cyfarpar a'r wybodaeth diogelwch tân, gwelsom fod trefniadau addas ar waith o ran diogelwch tân, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r cyfarpar tân yn rheolaidd ac arwyddion a oedd i'w gweld yn glir ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau addas ar waith er mwyn sicrhau safonau uchel mewn perthynas â rheoli heintiau. Roedd amserlenni glanhau effeithiol ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd yn y practis. Gwelsom fod y cyfleusterau hylendid dwylo a'r arwyddion cysylltiedig yn briodol. Roedd digon o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff ac roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da er mwyn gallu ei lanhau'n effeithiol.

Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn 'lân iawn' (11/12) neu'n 'eithaf glân' (1/12). Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (11/12) eu bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau yn briodol, gydag un claf yn nodi nad oedd yn gwybod.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff er mwyn ymdrin ag anafiadau offer miniog a gwelsom fod dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio er mwyn atal anafiadau. Roedd protocol addas ar waith ar gyfer anafiadau offer miniog.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir. Fodd bynnag, roedd cyfarpar yn cael ei ddihalogi yn y deintyddfeydd ac nid mewn ystafell ddihalogi ar wahân.

Roedd maint a chynllun un ddeintyddfa yn golygu bod y peiriant awtoclaf yn agos iawn i'r cleifion pan oeddent yn y gadair ddeintyddol. Gallai hyn olygu bod cleifion yn dod i gysylltiad ag aerosolau halogedig yn ystod cylchoedd awtoclaf. Gallai cleifion hefyd fod mewn perygl pe bai peiriant awtoclaf yn ddiffygiol.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd cleifion yn y ddeintyddfa ar yr un pryd â chylch awtoclaf fel mater o drefn. Esboniodd y staff hefyd fod gwaith adnewyddu yn cael ei wneud ar ôl mis Ebrill 2024, pryd y byddai'r peiriannau awtoclaf yn cael eu symud.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu lleoliad cyfarpar dihalogi.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion o'r gwiriadau ar gylchredau'r peiriant awtoclaf ac amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd. Gwnaethom nodi bod argraffiadau yn cael eu diheintio'n ddiogel fel y bo'n briodol.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau a dihalogi cyfarpar. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau yn glir.

Gwelsom fod yr holl wastraff yn cael ei storio'n ddiogel a'i waredu'n briodol drwy gontract gwaredu gwastraff addas. Nodwyd gennym fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol, ac roedd y manylion yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn ffolder COSHH gynhwysfawr.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio, eu rhoi a'u gwaredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd pad presgripsiwn y practis yn cael ei storio'n ddiogel, a gwelsom nodiadau clir yng nghofnodion cleifion am unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi. Fodd bynnag, ni welsom gofnodion o unrhyw gyngor a oedd yn cael ei roi i gleifion ynglŷn â'r meddyginiaethau a roddwyd iddynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyngor ynglŷn â meddyginiaethau a roddir i gleifion yn cael ei gofnodi'n briodol.

Gwnaethom edrych ar y polisi ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer monitro dyddiadau defnyddio cyfarpar a meddyginiaethau brys. Roedd yr holl gyfarpar brys a chymorth cyntaf o fewn cyrraedd hawdd i'r staff ac roedd y dyddiadau defnyddio i gyd yn gyfredol.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol ac roedd dau swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau diogelu addas i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion a'u bod wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar. Roedd y polisi a'r gweithdrefnau yn cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn nodi arweinydd diogelu penodedig ac yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth foddhaol o weithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn addas at y diben ac yn ddiogel, ac roedd cyfarpar deintyddol aml dro mewn cyflwr da er mwyn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin â chyfarpar deintyddol yn ddiogel ac roedd polisiâu addas ar waith i reoli methiant cyfarpar. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd cofnodion hyfforddiant pob aelod o'r staff clinigol y gwnaethom edrych arnynt yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig

wedi'u cwblhau'n llawn. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos fod risgiau a manteision ymbelydredd yn cael eu hesbonio i gleifion, a lle y bo'n berthnasol i'w cysurwyr, a bod unrhyw gysylltiadau yn cael eu cofnodi'n briodol. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol a bod cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod triniaethau'n cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol a chan gydymffurfio â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom adolygu cofnodion 10 claf i gyd a gwelsom fod y cofnodion clinigol yn cyrraedd safon foddhaol. Roedd cofnodion yn cael eu storio'n briodol ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Roedd y broses o storio, defnyddio a diogelu cofnodion yn cael ei rheoli drwy bolisi rheoli cofnodion addas.

Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cleifion cynhwysfawr a oedd yn cynnwys cadarnhau hanes y claf, y rhesymau dros yr apwyntiad a chydysniad ar sail gwybodaeth ar gyfer yr opsiynau triniaeth a ddarparwyd. Ategwyd hyn gan yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym yn holiadur AGIC. Roedd gwiriadau ar gyfer canser y geg, archwiliadau o feinweoedd meddal ac asesiadau risg geneuol hefyd yn cael eu cofnodi fel mater o drefn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd gweithdrefn brysbennu gadarn ar waith a oedd yn defnyddio'r slotiau a oedd yn cael eu creu pan fyddai apwyntiadau yn cael eu canslo i ddefnyddio amser y clinigwyr mewn ffordd effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am bum safle mewn grŵp o bractisau a dywedodd wrthym ei bod yn teimlo'n hyderus yn ei rôl a'i bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth a oedd eu hangen arni. Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos tystiolaeth o drafodaethau ar adborth cleifion a thriniaethau'r GIG. Roedd y polisiau yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac roedd unrhyw ddiweddariadau yn cael eu cyfleu i'r staff drwy gyfarfodydd neu'n ysgrifenedig.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ac yn diweddarau eu sgiliau mewn modd amserol. Yng nghofnodion staff pum aelod o staff allan o'r chwech yr edrychwyd arnynt, gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl gysiau hyfforddiant gorfodol a thystiolaeth o arfarniadau staff cyfredol a rheolaidd yn y ffeil. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddysgu a datblygu ac yn cael yr amser i wneud hynny.

Roedd y practis yn gweithredu gweithdrefn chwythu'r chwiban addas ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi pryderon pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le.

Roedd system rota effeithiol yn cael ei defnyddio i reoli niferoedd priodol o staff â'r cymwysterau addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol a nodwyd gennym fod gweithdrefn sefydlu addas ar waith. Roedd proses addas ar gyfer cadw staff hefyd ar waith. Dywedodd y rheolwyr wrthym yr aed i'r afael ag unrhyw faterion o ran perfformiad staff yn ystod cyfarfodydd arfarnu ac yn ystod cyfarfodydd staff, lle y bo'n briodol.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth dda â'r holl rwymedigaethau proffesiynol, gan gynnwys cofrestriadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau cyn cyflogi.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod system foddhaol ar waith ar gyfer cyflwyno a rheoli adborth gan gleifion. Roedd blwch awgrymiadau yn y dderbynfa a gwelsom o gofnodion cyfarfodydd fod adborth yn cael ei drafod yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd poster yn yr ardal aros yn nodi manylion ymateb y gwasanaeth i adborth gan gleifion ac yn amlinellu unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny. Roedd hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddar'u'n fisol, lle y bo'n gymwys.

Roedd y polisi cwynion wedi'i arddangos yn glir yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol ohono. Nodwyd gennym fod cwynion gan gleifion yn cael eu rheoli'n unol â'r weithdrefn Gweithio i Wella, a gwelsom fod rheolwr y practis wedi'i enwi fel yr unigolyn y dylid cysylltu ag ef pe byddai claf yn awyddus i wneud cwyn. Er nad oedd unrhyw gwynion diweddar i ni fwrw golwg drostynt, gwelsom fod ffolder foddhaol o gwynion yn ei lle. Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu cofnodi gan staff y dderbynfa a'u cyflwyno i reolwr y practis i'w hadolygu.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau addas ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldeb proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i rannu pryderon â'r claf pan fyddai rhywbeth wedi mynd o'i le. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn ddiweddar.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod polisi gwella ansawdd ar waith a oedd wedi cael ei ddiweddar'u'n ddiweddar i gefnogi'r gweithgareddau a ddarperir gan y practis. Nodwyd bod archwiliadau o gofnodion cleifion, rheoli heintiau a graddau pelydr-X yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom hefyd fod archwiliad diweddar wedi cael ei gynnal ar ddarparu cyflenwadau yn y toiled i gleifion, ar ôl adborth gan gleifion. Fodd bynnag, ni welsom fod archwiliadau clinigol ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau na rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod yr archwiliadau hyn wedi cael eu dechrau ond nad oeddent wedi cael eu cwblhau eto.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfotigau yn rheolaidd.

Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw adnoddau datblygu tîm, fel y rhai sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru, wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â gweithgaredd datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddi.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Amlinellodd y staff ddulliau addas o gyfathrebu â ddarparwyr gwasanaethau iechyd eraill, gan esbonio eu bod yn cynnal cydberthnasau gwaith da â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill.

Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed i ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg (Brynaman)

Dyddiad yr arolygiad: 13 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Brynteg (Brynaman)

Dyddiad yr arolygiad: 13 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i gleifion yn Saesneg, ond prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn Gymraeg. Gwelsom arwyddion yn y practis a oedd yn uniaith Saesneg, a phrin oedd y wybodaeth wrth ddesg y dderbynfa i annog y cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Nid oedd y staff yn gwisgo bathodynau 'laith	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a)	Rydym wedi gofyn i'r Bwrdd lechyd ddarparu mwy o wybodaeth yn Gymraeg i'w harddangos yn y practis. Rydym bellach wedi cyflogi nyrs ddeintyddol sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gwisgo bathodyn 'laith Gwaith'.	Cathy Jones	Wedi'i roi ar waith

<p>Gwaith', ac esboniodd y staff mai'r rheswm dros hynny oedd nad oedd neb yn y practis yn siarad Cymraeg yn rhugl.</p>					
<p>Gwelsom nad oedd unrhyw loceri diogel ar gael i'r staff storio eu heitemau personol.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried ffyrdd o storio eiddo personol y staff yn ddiogel.</p>	<p>Adran 22 (3) (b)</p>	<p>Rydym bellach wedi prynu bocsys wedi'u selio a gall y staff roi eu heitemau personol yn y bocsys wedi'u selio hyn a'u storio yng nghegin y staff.</p>	<p>Cathy Jones</p>	<p>Wedi'i roi ar waith</p>
<p>Gwelsom fod cyfarpar yn cael ei ddihalogi yn y deintyddfeydd ac nid mewn ystafell ddihalogi ar wahân. Roedd maint a chynllun un ddeintyddfa yn golygu bod y peiriant awtoclaf yn agos iawn i'r cleifion pan oeddent yn y gadair ddeintyddol. Gallai hyn olygu bod cleifion yn dod i gysylltiad ag</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu lleoliad cyfarpar dihalogi.</p>	<p>Adran 22 (2) (a)</p>	<p>Rydym bellach wedi symud y peiriant awtoclaf i leoliad mwy addas. Rydym hefyd wedi gofyn i Today's Dental am ddyddiad pan fydd y gwaith yn dechrau ar gwblhau ystafell ddihalogi newydd mewn ystafell ar wahân yn y practis.</p>	<p>Cathy Jones</p>	<p>Symudwyd y peiriant awtoclaf ar unwaith. Dyddiad ar gyfer ystafell ddihalogi ar wahân - erbyn haf 2024.</p>

<p>aerosolau halogedig yn ystod cylchoedd awtoclaf. Gallai cleifion hefyd fod mewn perygl pe bai peiriant awtoclaf yn ddiffygiol. Dywedodd y staff wrthym nad oedd cleifion yn y ddeintyddfa ar yr un pryd â chylch awtoclaf fel mater o drefn.</p>					
<p>Gwelsom nodiadau clir yng nghofnodion cleifion am unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi. Fodd bynnag, ni welsom gofnodion o unrhyw gyngor a oedd yn cael ei roi i gleifion ynglŷn â'r meddyginiaethau a roddwyd iddynt.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyngor ynglŷn â meddyginiaethau a roddir i gleifion yn cael ei gofnodi'n briodol.</p>	<p>Adran 20 (1)</p>	<p>Rwyf wedi siarad â'r staff cyswllt am hyn ac maent bellach yn cofnodi'r wybodaeth hon yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Cathy Jones</p>	<p>Wedi'i roi ar waith</p>
<p>Gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion</p>	<p>Adran 13 (1) (a)</p>	<p>Rydym bellach wedi siarad â Dentally, ein darparwr meddalwedd,</p>	<p>Cathy Jones</p>	<p>Wedi'i roi ar waith</p>

<p>gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.</p>	<p>iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi fel mater o drefn.</p>		<p>ac mae'r nodwedd hon ar gael yn ein meddalwedd ar gofnodion cleifion i nodi dewis iaith y claf.</p>		
<p>Ni welsom fod archwiliadau clinigol ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau na rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod yr archwiliadau hyn wedi cael eu dechrau ond nad oeddent wedi cael eu cwblhau eto.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfotigau yn rheolaidd.</p>	<p>Adran 16 (1)</p>	<p>Rydym wrthi'n cwblhau'r archwiliadau hyn.</p>	<p>Cathy Jones</p>	<p>Mehefin 2024</p>
<p>Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw adnoddau datblygu tîm, fel y rhai sydd ar gael drwy Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gweithgareddau datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddi.</p>	<p>Adran 16 (1)</p>	<p>Rydym wrthi'n gweithio ar adnoddau datblygu.</p>	<p>Cathy Jones</p>	<p>Mehefin 2024</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Cathy Jones

Teitl swydd: Rheolwr Practis / Rheolwr Cofrestredig AGIC

Dyddiad: 22/4/2024